y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD
1 MAI 1993 RHIF 193 65c I NI - AM DDIM I CHI

# Llwyddiant addysg Gymraeg yn y ddinas yn dwyn problem yn ei sgil!

Unwaith eto, mae anniddigrwydd ymhlith rhieni cylchoedd Meithrin Cymraeg Caerdydd. Maen nhw'n aros am gadarnhad gan yr Awdurdod Addysg ynghylch pa ysgol bydd eu plant yn mynychu ym Mis Medi. Mae hon yn hen broblem a'r Awdurdood yn methu gwneud trefniadau boddhaol o flwyddyn' flwyddyn gan greu pryder ymhlith rhieni.

Ar hyn o bryd mae'r Dinesydd yn deall fod o gwmpas 300 o blant yn barod i gychwyn yn yr Ysgolion Cymraeg Fis Medi nesa a bod o leiaf 82 ar restr un ysgol yn unig! Mae'r twf yn aruthrol er pan agorwyd y dosbarth Cymraeg cyntaf yn y ddinas ym Medi 1949 yn ysgol Heol Parc Ninian gyda 18 o ddisgyblion!



Mae gwir angen am Ysgol Gymraeg gynradd arall yn y ddinas yn arbennig yn nwyrain y ddinas ond er i'r Awdurdod ystyried nifer o safleodd does dim cynllun pendant wedi dod i'r fai eto a felly bydd pryder y rhieni yn parhau nes i'r Awdurdod gwneud darpariaethau digonol i gwrdd â'r gofyn cynyddol am addysg Gymraeg.

Mae 25 o gylchoedd meithrin Cymraeg ar agor yn y ddinas a sôn am agor mwy ym Medi heb sôn am y 17 o Gylchoedd Ti a Fi sy'n bwydo'r Cylchoedd Meithrin. Felly, mae'n gwbl angenrheidiol i'r Awdurdod paratoi cynllun i ddatrys y broblem astrus hon.

Cymorth Cristnogol

Eglwysi Cymraeg Caerdydd

# BORE COFFI A FFAIR

DYDD SADWRN, MAI 15 1993

YN FESTRI CAPEL Y TABERNACL

GWAHODDIR CYFRANIADAU AT Y STONDINAU

PLANHIGION, TEISENNAU, LLYFRAU, LLESTRI, ELIFFANT GWYN

BYDD STONDIN TRAIDCRAFT YNO HEFYD

TOCYN 50c

9.30 - 12.30



**MEIC STEVENS**

"ER COF AM BLANT Y CWM" CD/CASET!

**ALLAN ERBYN STEDDFOD YR URDD!**

FIONA BENNETT - CASET

SIAN JAMES - CD/CASET

FIDEO AEROBICS CYMRAEG - Y CYNTAF O'I FATH!

FIDEO CANUOCI - DEWCH I GANU!

MWY O ANTURIAETHAU

JINI MÊ! - FIDEO £8.99

SAIN - LLANDWROG - CAERNARFON GWYNEDD.

(0286) 831111



# RHIANEDD

# CWM RHYMNI

Ydych chi'n joio canu ac yn hoffi cymdeithasu?

Os felly beth am ymuno â Rhianedd Cwm Rhymni am hwyl ar gân ?

Cysylltwch â: Sian (0222) 889295
Rhian (0495) 226051
neu Gaynor (0443) 814079



# CYMANFA GANU

DOSBARTH CAERDYDD (M.C.)

## Capel y Crwys, Heol Richmond

## Dydd Sul, Mai 16
am 2.30 a 6 o'r gloch

Arweinydd: Mai Roberts

CROESO I BAWB

# MENNA'N MANYLU

Un o fanteision byw yng Nghaerdydd ydy'r ffaith fod ein prifddinas ni mor agos i brifddinas Lloegr (er y byddai'n dipyn gwell gen i petai yn nes i'r Gogledd!). Dro nôl cawsom drip efo Côr Merched y Garth i Lundain, nid i ganu mewn cystadleuaeth na chyngerdd ond i siopa ac ymweld â sioe yn y Theatre Royale.

Wedi teirawr bleserus o daith, cyrraedd gwesty'r Strand Palace a chael cinio yno cyn clywed fod yr IRA wedi bomio adeiladau Banc Shanghai ynghanol y ddinas! Gan ein bod isio trafaelio i Harrods, penderfynu cymryd tacsi yn hytrach na thrên tanddaearol gan feddwl y byddai'n fwy diogel. Ond, deall wedyn fod dau dacsi wedi cael eu ffrwydro efo bomiau! Dyna ddewis penwythnos anffodus iawn, ond trwy drugaredd chafodd neb o'n criw ni niwed ac ni ddifethwyd y diwrnod. Wedi loetran rhwng stondinau drudfawr Covent Garden, dyma hwylio i fynd i'r theatr a chael cipolwg ar Lady Di yn mynd i'r Tŷ Opera Cenedlaethol i glywed cyngerdd gan y WNO - roedd yn braf iawn gweld y ddraig yn hedfan y tu allan. (Y ddraig goch, ac nid Di!)

Aeth rhai o'r criw i weld Les Miserables, ond gan fy mod i wedi gweld y sioe yna o'r blaen, dewisais i weld Miss Saigon a chael mwyniant mawr unwaith eto gan waith Andrew Lloyd Webber. Teimlwn fy mod yn Soho'n syth efo'r merched heglog a'r close bach llinynau G, ond na, ar y llwyfan yr oedd y rhain yn diddanu milwyr Americanaidd adeg rhyfel Vietnam. Stori sydd yma am un o'r milwyr yn syrthio mewn cariad efo un o'r merched lleiaf mentrus ohonynt. Cawsant noson gynhyrchiol iawn cyn iddo orfod mynd yn ôl i'w wlad ac er fod y ddau'n caru ei gilydd, priododd o â merch o'i wlad ei hun ac roedd y ferch o Saigon i fod i briodi un o'i gwlad hithe, ond lladdodd hwnnw. Cafodd blentyn gan yr Yank ac aeth draw i America i chwilio amdano - a dod o hyd iddo wrth gwrs...... Ddywedai ddim mwy rhag ofn eich bod yn mynd i'w gweld.

Roedd y sain ar ddechrau'r perfformiad yn wael a gwael hefyd oedd llais y cymeriad Americanaidd (er mai Ffrancwr oedd o go iawn) ond oni bai am hynny roedd y llwyfannu yn dderbyniol efo hofrennydd a char yn ymddangos o berfedd y llwyfan eang. Y mwynhad mwyaf oedd gweld yr actor bach tair oed Chineaidd (neu Japaneiadd - don i ddim yn ei weld yn iawn o'r cefn!) yn ymddangos o du ol y sgrin âc yn ystod y "curtain call". Sioe werth ei gweld os byddwch yn y cyffinie.

Ar ôl y sioe, rhaid oedd mynd draw i Soho i "fusnesa" ond gwelsom fwy o antics yn y sioe nag yma felly nôl â ni i'r gwesty ar ôl hanner awr!.

Y bore canlynol roeddem i fod i fynd i siopa i Petticoat Lane ond bu dwy "fraw bom" yno felly rhaid oedd anghofio am hynny. Yn hytrach aethom i Windsor ar y ffordd adref a mwynhau crwydro rownd gerddi'r castell a siopa yn y siope elitaidd. Ond roedd canolfan stryd fawr yno hefyd oedd yn well i fy mhoced i er fod y siope ar gau ar y Sul.

Dyne ddeuddydd derbyniol iawn efo criw y côr. Byddwn rwan yn ail-afael yn yr ymarferion yn enwedig o feddwl fod y Steddfod Genedlaethol ar ein gwarthaf eto o fewn dau fis!.


yDinesydd

BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 598243**

*Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):* tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
*Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:* £15


# "Y DINESYDD" PAPUR BRO CYNTAF CYMRU?



Y mis diwethaf cafwyd erthyglau ac ati yn y "Dinesydd" i atgoffa'r darllenwyr bod y papur yn ugain oed y mis hwnnw. Ond ymddengys fod pawb wedi anghofio yng Nghaerdydd bellach am y ffaith fod na "bapur bro" hŷn na'r "Dinesydd" hyd yn oed, wedi bod yng Nghaerdydd yn ystod y pumdegau ac mae gen i bentwr o ôl-rifynnau'r papur hwnnw yn fy meddiant ac yn rhyfedd iawn y rhifyn cyntaf sydd gen i ydy rhifyn Ebrill 1952. Y Parch. Ben Davies gweinidog Capel Severn Rd., ac Idwal C. Evans fu'n ysgrifennydd Cymrodorion Caerdydd oedd y ddau olygydd ar y pryd ond erbyn y rhifyn am fis Ionawr 1953 enw Carey Roberts, Donald St., Y Rhath sy'n ymddangos fel golygydd ac roedd o'n dal yn olygydd ym Mehefin 1956 ond mae nodyn yn y rhifyn hwnnw gan Emyr Currie Jones yn gofidio am gyflwr iechyd y golygydd. "Y Gaer Cylchgrawn Cymry Cymraeg Caerdydd" ydy'r teitl llawn ar glawr pob rhifyn a felly gellir dadlau nad papur bro fel y cyfryw ydoedd ond yr un oedd ei swyddogaeth sef cadw Cymry Cymraeg Caerdydd mewn cysylltiad â'i gilydd. Tybed oes un o ddarllenwyr y "Dinesydd" yn gallu adrodd hanes sefydlu'r "Gaer" a phryd y daeth i ben a pham?

Gwilym E.Roberts.

## YMDDIHEURIAD "Y DINESYDD"

Dymuna'r "Dinesydd" nodi i'r cartwn "A ni na'n gwnaed yn bysgotwyr dynion" ymddangos yn rhifyn Mis Ebrill heb yn wybod i'r Cartwnydd Cen Williams. Addaswyd y cartwn o un a dynnodd y cartwnydd i'r "Dinesydd" rai blynyddoedd yn ôl. Dymuna Cen Williams a'r "Dinesydd" ei gwneud yn gwbl eglur nad oedd wedi caniatau'r newid na'r defnydd o'r gwreiddiol. Ymddiheurwn iddo am ei dynnu i mewn i'r ddadl.

# Anerchiad Fuddugol enillydd tlws Eisteddfod y Dysgwyr yng Nghaerdydd

Annwyl Gyd Cymry,

Am y tro cyntaf ers y drydedd ganrif ar ddeg mae ein cenedl yn sefyll ochr yn ochr a'r Albanwyr, y Gwyddelod, a'r Saeson.

Ar ôl ymladd dros y canrifoedd, weithiau gyda dadleuon gwleidyddol, weithiau, gwaetha'r modd gyda thân a ffrwydradau,'rydyn ni yn awr wedi cyrraedd drws ein dyfodol.

Ar ôl canrifoedd o guro wrth y drws yma, gan genedlaethau o'n blaen, Ni, gyd - Gymry sydd wedi derbyn y wobr aur.

Wrth edrych yn ôl dros ysgwydd y cenedlaethau, teimlwn yn ddiolchgar ein bod yn un â Llewellyn a'i frawd Dafydd. A'r milwyr dewr hynny ymlaen i'r oesoedd presennol gyda Saunders Lewis a Gwynfor Evans ar flaen y gâd. Dyma'r bobl sydd wedi parhau i guro wrth y drws, pobl sydd wedi breuddwydio dros yr achos, pobl sydd wedi cadw o flaen eu llygaid y ddiarheb, "Dyfal donc a dyr y garreg"

'Nawr cyd Gymry mae llwyddiant ar y gorwel, ni sydd a'r cyfrifoldeb o dorri'r garreg. Ac wrth feddwl am ein mentr ninnau bydd eneidiau ein hynafiad yn sefyll yn gadarn gyda ni ac yn gorfoleddu yn ein hymdrechion.

Beth am y dyfodol? Yn fy marn i, does dim dwywaith amdani, er pwysigrwydd y brwydrau cynt a chyda llaw, nid brwydr filwrol neu frwydr hunaniaeth fydd y frwydr hon, ond brwydr am ein dyfodol yn yr Ewrop newydd. Mae hon yn frwydr economaidd, yn frwydr am swyddi, ac yn frwydr i ennill buddsoddiadau. Fel y dywedais mae'r awr fawr inni fel Cymry wedi gwawrio, 'rydyn yn sefyll ar drothwy ein dyfodol, - mae'n gyfnod o gyfnewidiadau mawr, ond rhaid defnyddio'r gorffennol fel sbardun i'r dyfodol. Codwn ein wynebau tua'r haul, a gwerthwn ein talentau i'r byd.

Gyd Gymry, - Y dydd a wawriodd - Chwifiwn ein baneri yn yr awel iach

Heddiw caf yr anrhydedd a'r fraint amhrisiadwy o siarad dros ein cenedl yma yng Nghaerdydd. Cenedl sydd wedi ennill y frwydr, Cenedl sydd yn barod i deithio i'r dyfodol.

Ond Gyd Gymry, gadewch i ni deithio i'r dyfodol, nid fel Cymry'r Gogledd neu Cymry'r De, nid Cymry diwylliannol, neu Cymry Cymraeg eu hiaith yn unig, ond codwn fel un llais gan wthio ymlaen i'r byd newydd, a pharatoi i wynebu sialens y byd yn yr unfed ganrif ar hugain. Gyd Gymry, mwynhewch eich hunain ar y dydd arbennig yma. Fe gododd yr haul. Ni gawsom y tlws. Gadewch i ni lywodraethu ein hunain gydag urddas, a chyd fyw yn dangnefeddus gyda'n cymdogion yn Lloegr a'r Alban. Cofiwch fod adeg newydd wedi dechrau yn ein hanes. Peidiwch ag anghofio am y pethau cysegredig a adeiladwyd gennym fel cenedl dros y canrifoedd. Cadwn ein hiaith, ein sefydliadau Cymreig, ein ffydd Gristnogol, ein llenyddiaeth, yr Orsedd a'r Eisteddfod, sefydliadau sydd wedi gwneud Cymru yn unigryw. Ond rhaid creu sefydliadau a diwylliant newydd hefyd cyfatebol i'r ganrif newydd

Gyd Gymry, byddwn yn falch o'n buddugoliaeth. Byddwn yn falch am y gorffennol, a chrewn yr un balchder i'r dyfodol.

Gareth Richards — Pen-y-Bont-ar-Ogwr.

## *AELWYD HENOED CYMRY CAERDYDD*

Da yw cofnodi bod y gymdeithas hon yn mynd ymlaen o nerth i nerth. Eleni eto cawsom ginio i ddathlu ein nawddsant yng nghwmni'r gŵr gwadd Mr Watcyn Jones.

Yn y cyfarfod canlynol cawsom brynhawn hyfryd yng nghwmni Selwyn a Margaret Jones a'u merch Judith.

Idwal Hughes, ein trysorydd, fu wrthi'r prynhawn olaf cyn y Pasg gyda chwis anarferol iawn - mawr fu'r crafu pen! Mae tri bws mini yn cludo'r aelodau i'r cyfarfodydd erbyn hyn a chredwch neu beidio mae un aelod yn dod bob cam o Abercynon ac un arall o Nelson!

Os oes unrhyw un am ymuno â'r garfan hapus hon, mae 'na groeso mawr yn eich aros. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth wedi cyrraedd y cant ac ar gyfartaledd daw hanner cant i drigain i bob cyfarfod.

Os ydych am gludiant er mwyn ymuno â ni, y tâl yw punt y prynhawn sy'n cynnwys disgled o de a lluniaeth ysgafn.

*Ffoniwch Mrs Eilonwy Jones Ysgrifennyddes 890440 neu Mrs Gwenda Morgan Cadeirydd 693848.*

## Ydych chi'n cofio?

Derbyniodd Cymdeithas Landaf farddoniaeth yn Saesneg o Awstralia oddi wrth y Parchedig Patric Haldane - Stevenson, sy'n 83 mlwydd oed, am y bont a safai ger y hen felin ar bwys Clwb Rygbi Llandaf. Fe'i chwalwyd tua 1920 pan wnaed ffordd Orllewinol Caerdydd. Mae'r Gymdeithas yn gofyn a oes unrhw un arall erbyn hyn yn cofio am y bont?

## GAIR O DDIOLCH

*Ar ran y teulu dymunaf ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd mor hael tuag at y gronfa i gofio am Ken. Derbyniwyd £1,875 ac mae'r arian yn mynd i Ysbyty Harefield ac at apêl Syr Geraint Evans i Ymchwil y Galon. Diolch hefyd i bawb am eu llythyrau, a'u caredigrwydd yn ystod ein profedigaeth, a diolch i Nell a Rolly Williams am edrych ar ôl y gronfa.*

*Bu Ken yn gweithio yn ddiflino ar bwyllgor Caerdydd o Ymchwil y Galon, yn enwedig ar bwyllgor y "Cyclethon". Fe'i cynhelir eleni ar y 5ed o Fedi. I gofio amdano mae'r pwyllgor yn cynnig cwpan "Cwpan Coffa Ken Innes" i'r ysgol fydd yn codi'r swm mwyaf o arian noddi. Fe fydd yr ysgolion yn cael mwy o fanylion am hyn yn nes ymlaen.*

*Anne Innes.*

# Taith gerdded noddedig CYD a pharti i ddilyn!

Cerddwn Ymlaen', ddydd Gwener 14 Mai. Taith gerdded noddedig o Gastell Caerdyddd i Landaf ac yn ôl (rhyw dair milltir i gyd!) Ymgynnull am 6.oo p.m. tu allan i Gastell Caerdydd, Heol-y-Dug. Bydd yr arian a gesglir yn mynd i CYD a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae ffurflenni noddi ar gael gan Richard Lewis, 22 Park Place, Caerdydd. Ffon (0222) 390980. Ac i ddilyn cynhelir Parti yng Nghlwb Ifor Bach 8.00 p.m. Adloniant byw a bwffe. Pris mynediad wrth y drws - £1.50 (i gerddwyr), £2.00 (i bawb arall). Uchafbwynt y flwyddyn! Peidiwch â'i golli!

**Am fwy o fanylion am y ddau ddigwyddiad hyn cysylltwch â Richard Lewis, 22 Park Place, Caerdydd. Ffon (0222) 390980.**

# EISTEDDFOD FLYNYDDOL CYD DE MORGANNWG

Ar nos Fercher yr 31 o Fawrth tra roedd tîm pêl - droed Cymru yn curo tîm Gwlad Belg ym Mharc yr Arfau nid nepell i ffwrdd cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol CYD De Morgannwg yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Roedd neuadd y Ganolfan dan ei sang a daeth cystadleuwyr brwd o'r Rhondda, Cwm Cynon, Trefforest, Casnewydd, Pontypridd, Maesteg, Pen-y-Bont-ar Ogwr, Y Barri, Y Bontfaen a Chaerdydd i greu noson fendigedig a phawb yn cytuno mai dyma'r eisteddfod orau eto o safbwynt hwyl a brwdfrydedd. Niclas ap Glyn, Penarth oedd Llywydd Anrhydeddus yr Eisteddfod eleni a'r beirniaid oedd Iwan Guy, Eleri Rogers, Myra Jenkins, Luned Davies, Scott a Steven Davies. Enillwyd Tlws yr Eisteddfod o waith Molly Curley Llanisien, gan Gareth Richards Pen-y Bont am sgrifennu anerchiad gan Brifweinidog Cymru yn sesiwn gyntaf Senedd yng Nghaerdydd. Canmolwyd ei anerchiad gan Myra Jenkins y beirniad. Gellir darllen gwaith yr enillydd yn y rhifyn hwn. Daeth yr Eisteddfod i ben am 11.30p.m. gyda chyhoeddi marciau y gwahanol ardaloedd a chyflwyno cwpan yr Eisteddfod i ardal Pen-y-Bont am ddod yn uchaf. Galwyd ar Orwig Owen i dderbyn y cwpan ar ran y dysgwyr gan ei fod yn ymddeol y diwrnod hwnnw wedi blynyddoedd lawer o fod yn Swyddog yn yr Adran Addysg Gymunedol ym Morgannwg Ganol. Bu yn gefn i ddysgu Cymraeg i oedolion yn ardal Pen-y-Bont am flynyddoedd lawer a bydd bwlch mawr er ei ôl. Daeth Dysgwyr Prifysgol Morgannwg Trefforest yn ail ac ardal y Barri yn drydydd. Mae Falmai Griffiths Rhiwbeina wedi bod yn Ysgrifennydd yr Eisteddfod ers ei dechrau bymtheng mlynedd yn ôl a diolchwyd iddi hi am ei holl waith cyn canu'r Anthem Genedlaetol i ddiweddu'r noson.

# CYFARFOD CYHOEDDUS TRAFOD DYFODOL Y DINEDYDD

Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach ar nos Fercher y 7fed o Ebrill pan ddaeth ugain o bobol ynghyd i drafod dyfodol "Y Dinesydd". Cadeiriwyd y cyfarfod gan Robin Jones a diolchodd i bawb am ddod ac esboniodd y rheswm am alw'r cyfarfod tra phwysig hwn. Roedd e'n teimlo ein bod ar groesffordd a bod angen gwaed newydd nawr i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gadw'r "Dinesydd" i fynd. Mynegodd ei werthfawrogiad o waith Shân Emlyn dros ugain mlynedd ers sefydlu'r "Dinesydd" ac anrhegwyd hi â llun hefo dyfyniadau o waith Saunders Lewis. Diolchodd hi i bawb am eu cefnogaeth iddi hi ac am eu cyfeillgarwch a dymunodd yn dda i'r "Dinesydd" wrth wynebu'r dyfodol. Cafwyd trafodaeth agored cyn gwrando ar Adroddiad y Trysorydd ac ethol swyddogion a phwyllgor newydd i barhau'r gwaith. Cyntunod Robin Jones i aros yn Gadeirydd dros dro ac etholwyd Alun Ceri Jones yn Is Gadeirydd a gwirfoloddodd nifer i ffurfio'r pwyllgor newydd. Y broblem fwyaf sy'n wynebu'r "Dinesydd" ydy darganfod golygydd newydd i fod yn gyfrifol am drefnu deg rhifyn yn flynyddol ac os oes unrhyw un â diddordeb yn y swydd cysyllter ar frys hefo Robin Jones neu Alun Ceri Jones. Doedd neb yn y cyfarfod am weld "Y Dinesydd" yn dod i ben a felly os ydych chi'n gallu helpu mewn unrhyw ffordd, megis cyfrannu arian, ymuno â'r Pwyllgor, cynorthwyo i ddosbarthu'r "Dinesydd" rhowch wybod os gwelwch yn dda. Mae'r "Dinesydd" yn bwysig i Gymry Cymraeg Caerdydd ac yn gymorth i gadw pawb mewn cysylltiad â'i gilydd.







**Gwasanaeth i Gymry Caerdydd**

*Yn yr Eglwys Newydd*

CAPITAL Travel

Rhan o Gwmni Teithio Richards

*Medrwch wneud eich trefniadau ar gyfer eich*

*GWYLIAU '93*

*gyda Chymry Cymraeg*

**BARBARA neu ALED**

*Mae'r ddau yn aros am eich galwad – ffoniwch*

**Capital Travel Cyf.
11 Heol Penlline
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
(0222) 628661**

## CWRS PENWYTHNOS I DDYSGWYR YN LLANGANNOG DAN NAWDD CYMDEITHAS YR IAITH

Daeth dros gant o ddysgwyr ynghyd i Wersyll yr Urdd Llangrannog dros y penwythnos yr 2 - 4 Ebrill a llawer o'r rhain yn dod o Gaerdydd. Cafwyd gwersi a gweithgareddau lu ac ar y nos Sadwrn aeth pawb i Goleg Llanbedr Pont Steffan i fwynhau noson o ddawnsio gwerin a gwrando a dawnsio i gerddoriaeth Steve Eaves a'i driawd. Roedd trefniadau'r noson yng ngofal Cwrs Dysgu Cymraeg Morgannwg Ganol. Bydd y Cwrs dysgu Cymraeg nesa dan nawdd Cymdeithas yr Iaith dros benwythnos 29 - 31 o Hydref. Gellir cael ffurflenni a manylion am y cwrs gan Swyddfa'r Gymdeithas yn Pen Roc, Rhodfa'r Mor, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AZ Ffon (0970) 624501.

## Cwrs Gwyddeleg Cairde Cymru

Eleni cynhelir pumed Cwrs Gwyddeleg 'Cairde Cymru' (Cyfeillion Cymru) ym mhentref Ros Muc yng ngorllewin Iwerddon rhwng 31 Mai - 4 Mehefin. Saif Ros Muc ryw ddeng milltir ar hugain i'r gorllewin o ddinas Gallimh (Galway) ynghanol Gaeltacht Connamara un o gadarnleoedd olaf yr iaith Wyddeleg yn Iwerddon, ac ardal sy'n enwog am ei phrydferthwch. Amcan y cwrs yw rhoi cyfle i Gymry Cymraeg ddysgu tipyn bach am Iwerddon, ei hiaith a'i diwylliant. Y mae'r cwrs ei hun yn un dwys gyda chwe awr o wersi bob dydd. Bydd dosbarthiadau i ddechreuwyr ac i fyfywyr mwy profiadol hefyd. Y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu wrth gwrs. Ond er gwaetha'r gwaith caled ceir cyfle hefyd i ymlacio, i gerdded ac i fwynhau golygfeydd ardderchog yr ardal hynod hon (ynghyd ag ambell i beint o Guinness!!). Tra ar y cwrs bydd y myfyrwyr yn aros gyda theuluoedd lleol lle cân nhw gyfle i glywed ac i ymarfer eu Gwyddeleg. Cost y cwrs fydd £145, yn cynnwys gwely, brecwast a phryd gyda'r hwyr am chwe diwrnod

Am ragor o fanylion cysyllter â Richard Lewis, 38 Inverness Place, Y Rhath, Caerdydd, CF2 4RZ. Gwaith: (0222) 390980; Cartref: (0222) 470803.

## MYNYDD BYCHAN A THREDELERCH

OWEN JOHN THOMAS

Yn y flwyddyn 1765, wrth iddo ysgrifennu nodyn bach yn ei ddyddiadur ( a gafodd ei gadw'n Saesneg ) fe gyfeiriodd William Thomas, athro ysgol o Lanfihangel ar Elai, at ardal "Mynydd Bychan" ar gyrion Caerdydd. Roedd yn naturiol iddo, mae'n debyg, hyd yn oed tra'n defnyddio Saesneg, i son am 'Mynydd Bychan' ac nid 'the Heath' neu'r Great Heath fel y'i gelwid mewn dogfennau Saesneg swyddogol. Fe geir enghreifftiau eraill o'r enw Mynydd Bychan yn eithaf aml ar fapiau, ac hyd yn oed mewn cofnodion Cyngor y Dref. yn y cyfnod rhwng 1650 a 1820. Arferiad cwbl ffug, estron ac anffodus ydyw'r cyfieithiad o'r Heath - 'Y Waun' a ddefnyddir gan bobl y teledu ac eraill wrth sôn am Ysbyty Mynydd Bychan ac ati.

Pan oedd y Parchedig Christmas Evans yn cofrestru genedigaeth Edward Lewis ar y trydydd ar ddeg o Ebrill 1830 yn gofrestr y Tabernacl yn hen dref Caerdydd, fe gyfeiriodd at y baban fel un a aned yn Nhŷ Newydd ym Mhlwyf Tredelerch, ie Tredelerch ac nid Rhymni na Rumney ychwaith. Ond er i'm cyfaill, Paul Morgan, gysylltu â'r Swyddfa Gymreig sawl gwaith, mae'r arwydd gwirion, anghywir, 'Rumney / Rhymni' yn aros o hyd fel tyst i barodrwydd gweision suful i anwybyddu barn y brodorion. Fe ŵyr pawb taw yn agos at ffynhonnell yr afon yw Rhymni tra bod Tredelerch yn nes at ei haber.

Mae mapiau ystâd lleol y ddeunawfed ganrif hefyd yn drysorfa o filoedd o enwau lleoedd Cymraeg, enwau caeau, ffermdai, nentydd ac ambell heol a thafarn, y cyfan yn cadarnhau gwreiddiau Cymraeg yr ardal a adnabyddir heddiw fel dinas Caerdydd.

## CYFARWYDDWR NEWYDD YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cyn bo hir byddwn yn croesawu Elfed Roberts a'i deulu o Lanrug ger Caernarfon i'n plith pan fydd yn ymgymeryd â'i swydd newydd fel Cyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n ohebydd gyda phapurau'r Herald yng Nghaernarfon cyn troi i fod yn werthwr bwydydd i ffermwyr Môn ac Arfon. Wedyn, yn 1981 ymunodd â Staff Mudiad yr Urdd fel Swyddog Datblygu Eryri. Daeth yn drefnydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1984 a bu yn y swydd honno nes iddo gael ei benodi yn Drefnydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru y Gogledd yn 1986. Dymunwn bob rhwyddineb iddo yn ei swydd newydd fel Cyfarwyddwr.

## CADAIR EISTEDDFOD GLANTAF I LANC O RIWBEINA

**Llongyfarchiadau i Iwan Walters, Rhiwbeina,** disgybl Chwech Un, ar ennill Cadair Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Glantaf. Roedd rhaid paratoi ffolio gyda thri darn o lenyddiaeth. Dewisiodd Iwan ryddiaith a chafwyd tair ysgrif o natur gwahanol i'w gilydd ganddo. W.J.Jones Y Mynydd Bychan oedd y beirniad ac yn ei feirniadaeth dywedodd ei fod yn amlwg fod Iwan yn mwynhau 'sgrifennu a bod cyffyrddiadau un o lenorion y dyfodol yn ei waith. Cafwyd graen ar y seremoni gadeirio o dan arweiniad Malcolm Thomas y Prifathro. Diwrnod i'w gofio i'r llanc o Riwbeina !

## CYMREIGIO'N CYMUNEDAU

Cynhelir Fforwm i drafod Cymreigio'n Cymunedau yng Nghanolfan Gymraeg Merthyr yn Neuadd Soar Pontmorlais, Merthyr Tudful ar Ddydd Sadwrn yr 22 o Fai. Cadeirir y diwrnod gan Dr Carl Clowes, Cadeirydd y Fforwm iaith. Am ragor o fanylion cysylltwch â Helen Prosser, CBAC yr Adran Gymraeg, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX.

### CYDYMDEIMLO

Bu Farw Idris Jones yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 17 o Ebrill Cydymdeimlir ag Olwen ei wraig ac a'r ddau fab Huw ac Alun yn eu colled. Fe'i claddwyd yn Mynwent Llanfihangel yng Ngwynfa yn Mhowys. Bu'r teulu'n byw yn Llanrhymni am flynyddoedd ac yn aelodau yng Nghapel Ebenser.

## LLONGYFARCHION

I Tim a Siwan Hill Maes y Felin Rhiwbeina ar enedigaeth mab arall sef Rhodri, brawd i Aled a Sion.

* * * * *

I Rhian Wyn merch Idwal a Mair Hughes y Mynydd Bychan ar ei dyweddïad â David Snead.

* * * * *

I Sarah a Neil Johnson y Mynydd Bychan ar enedigaeth mab, Gareth Llŷr, ar fore Sul y Pasg, brawd i Alun a Rhiannedd ac wŷr arall i Jean Johnson, Meisgyn ac Emrys a Peggy Wynn Jones Aberystwyth.

* * * * *

I Alan W.Jones, Bishops Road yr Eglwys Newydd a phrifathro Ysgol Iolo Morganwg y Bontfaen ar ennill gradd B.A.'r Brifysgol Agored mewn Mathamateg.

* * * * *

Ar ddydd Sadwrn Ebrill 3ydd dathlodd Dr Rosentyl (Rose) Griffiths ei phenblwydd yn 90oed. Dymunai ei ffrindiau clos gynnal parti i ddathlu'r achlysur llawen Ond ni fynnai hi hynny Dewisach ganddi oedd treulio nawn Sul yn rhannu ei chwmni a'i bisgedi â'r di-gartref yng nghapel y Tabernacl.

* * * * *

I Miranda Morton y Rhath ond o Ben-y- Bont ar Ogwr gynt ar ei phenodiad Fel Llyfrgellydd Rhaglenni Ffeithiol HTV yng Nghroes Cwrlwys. Bu'n Fyfyrwraig yny Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru yn Aberystwyth a hi oedd y person cyntaf i dderbyn gradd M Lib drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar ôl gadael y Coleg bu'n Llyfrgellydd yn Sir Clwyd am ddeunaw mis cyn derbyn swydd fel Llyfrgellydd sain yn y BBC am ddwy flynedd. Oddi yno cafodd swydd fel Llyfrgellydd Cymraeg yn y Llyfrgell Ganol yn Nghaerdydd.

## Dyrchfiad i Dîm - Pêl Droed Dinas Caerdydd

Mae cefnogwyr tîm pêl - droed Dinas Caerdydd uwchben en digon wedi i'r tîm ennill eu ffordd i chwarae yn ail Adran y Gynghrair y tymor nesa.

## MEDAL GOFFA SYR THOMAS PARRY WILLIAMS

Llongyfarchiadau i Lilly Richards Caerffili sef chwaer y diweddar Llewelyn Walters, Rhiwbeina, ar gael ei hanrhydeddu gan yr Eisteddfod Genedlaethol drwy dderbyn medal Goffa Syr Thomas Parry Williams am ei hymdrechion clodwiw dros y blynyddoedd i hybu Cymreictod yn arbennig ymhlith pobl ifanc. Bu yn bennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen am flynyddoedd ac yn athrawes hyn yr ysgol nes iddi ymeddeol. Bu hi a'i diweddar briod H.P.Richards ac eraill yn gyfrifol am sefydlu'r Ysgol Gymraeg yng Nghaerffili a gweithiodd yn ddygn dros y blynyddoedd i hybu Cymreictod yn nhre Caerffili. Bydd yn derbyn y fedal mewn seremoni yn ystod Eisteddfod De Powys yn Llanelwedd ym mis Awst.

* * * * *

## ANRHEGU EMYR JENKINS

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandrindod ar fore Sadwrn y 3ydd o Ebrill ac wedi hynny cafwyd cinio yng Ngwesty'r Metropole hefo cant yn bresennol er mwyn anrhegu Emyr Jenkins ar ei ymadawiad â'i swydd fel Cyfarwyddwr yr Eisteddfod i fod yn Gyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Offrymwyd gras bwyd gan y Parchedig W.Rhys Nicholas Porthcawl a etholwyd y bore hwnnw yn Gymrawd yr Eisteddfod. Darllenwyd cerdd gan yr Archdderwydd Dr W.R.P. George cyn i Gwilym Humphreys, Cadeirydd y Cyngor, gyflwyno yr Athro Derec Llwyd Morgan Llywydd yr Eisteddfod. Diolchwyd i Emyr am ei holl waith dros yr Eisteddfod a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd. Yna, cyflwynwyd llun olew o waith Aneurin M.Jones Aberteifi iddo a diolchodd yntau i bawb am bob caredigrwyddd a theyrngarwch iddo yn ystod ei flynyddoedd fel Cyfarwyddwr.

Uned Hel Straeon
Gronant
Caernarfon
Gwynedd LL55 1NS

*Annwyl Gyfeillion,*

*Ym mis Mehefin eleni bydd Uned Hel Straeon yn ffilmio cyfres o raglenni yn America. 'Rydym yn chwilio am Gymry difyr ymhob rhan o'r wlad. Felly, os ydach chi'n gwybod am rai, a oes modd i chi gysylltu a mi, cyn gynted a phosib, un ai trwy lythyr neu drwy ffonio 0286 677595.*

*Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.*

*Yn gywir iawn*
*Ann Fôn Jones.*



## Seren Arall yn Nhrelai

Nos Sadwrn yr 17 o Ebrill aeth Steve Robinson o Drelai i baffio yn Newcastle ar fyr rybudd a daeth oddi yno yn Bencampwr Pwysan Plu'r Byd! Dyma'r tro cyntaf i Gymro ennill pencampwriaeth paffio proffesiynol mewn 25 mlynedd. Daeth ei gyfle oherwydd i Ruben Palacio pencampwr ar y pryd fethu prawf HIV a felly yn colli ei le. John Davidson o ardal Newcastle oedd y ffefryn i ennill yr ornest and Steve Robinson a orfu gan nid yn unig ennill yr anrhydedd o fod yn Bencampwr Pwysau Plu'r Byd ond hefyd ennill £12,000 o bunnoedd yn y fargen! Llongyfarchiadau i Steve Robinson.

* * * * *

## DAU GWPAN RYGBI I YSGOL GLANTAF

Bu caeau Llandaf yn gyrchfan i gefnogwyr timau rygbi Glantaf ar ddydd Llun y 29 o Fawrth pan welwyd y tîm dan 13 oed yn curo yr Eglwys Newydd o 31 - 17 ac yn ennill Cwpan Ingram Rees a'r tîm dan 15 oed yn curo Ysgol Uwchraddd Caerdydd o 68 - 7 ac yn ennill Cwpan Cronin. Roedd y tîm dan 12 oed wedi gobeithio ennill cwpan hefyd ond colli wnaethon nhw 35 - 17 i Ysgol Corpus Christie.

## CYMDEITHAS GODRE'R MYNYDD DU

Wyth mlynedd yn ôl cynhaliwyd Gŵyl Ddrama'r Urdd am y tro cyntaf ym Mrynman. Gofynnwyd i Rhys a Gwenda Morgan Brynaman gynt godi arian tuag at y fenter gan fod cymaint o frodorion y cylch wedi ymgartrefu yn y brifddinas a'i chyffiniau.

Daeth pobl fel Brian ac Elizabeth Wales a Marian Jenkins i helpu a threfnwyd swper i gant a hanner o bobl yn Neuadd Goffa Rhiwbeina. Bu Islwyn Gus Jones, Y Parchedig Meurwyn Williams (y ddau o'r Gwter Fawr) a Rachel Hywel Thomas yn eu diddori. Cafwyd noson i'w chofio! Awgrymwyd gan lawer a ddaeth i'r noson mai da o beth fyddai cwrdd yn flynyddol o hyn allan, ac felly bu. Mae dalgylch aelodau'r Gymdeithas yn ymestyn o Gasnewydd i Ben - y -Bont - ar - Ogwr a phawb wrth eu bodd yn cael cyfle i gwrdd a hen ffrindiau.

Dros y blynyddoedd bu Glan Davies (Clem ym Mhobol y Cwm), Huw Ceredig, Roy Noble, Yr Athro Derec Llwyd Morgan (pob un wedi ei eni ym mhentref y Gwter Fawr neu o fewn milltir neu ddwy iddo) a'r Parchedig Dafydd Rowlands yn wŷr gwadd ac eleni cafwyd Alun Wyn Bevan, prifathro Ysgol Gymraeg Pontardawe ond yn frodor o Frynaman, i annerch y Gymdeithas mewn cinio yn Nhŷ'r Dyffryn a chant a phymtheg yn bresennol.

Os oes rhywun am ymuno â'r Gymdeithas, cysylltwch â Rhys Morgan (693848) ond i fod yn aelod rhaid eich bod chi wedi eich geni neu wedi byw ym Mhen Ucha Cwm Tawe neu yng Nghwm Aman!


**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

Annwyl Olygydd,

Tybiaf fod peth camddealltwriaeth wedi codi yn dilyn cyfwelweliadau ar y cyfryngau ar Ebrill 2 1993 a rhai cyfraniadau yn 'Dinesydd' mis Ebrill. Hoffwn egluro i ddiaconiaid y Tabernacl benderfynu symud copiau fis Mawrth o'r Dinesydd o brif fwrdd cyntedd y capel, gan fod nifer wedi cael sioc o weld pennawd y dudalen flaen. Prif gonsyrn y diaconiaid oedd bod yn sensitif i deimladau yr aelodau hyn wrth ddarllen prif bennawd y dudalen flaen. Cyntunai llawer â safbwynt rhesymol Mrs Susie Evans bod natur a gogwydd y Dinesydd wedi newid dros y blynyddoedd ac nad oedd hi'n credu bod y pennawd yn dderbyniol, yn arbennig o sylweddoli bod teyrngedau i ddau o anwyliaid y ddinas wedi eu gadael i dudalennau llai amlwg y papur. Dyma oedd achos y loes a'r siom, gan mai adwaith a gafwyd i'r pennawd bras a'r polisi golygyddol yn hytrach na chollfarnu cynnwys yr erthygl flaen fel y cyfryw.

Parthed y cyfeiriadau a wnaed ynglŷn â chymdeithas yr hoywon, ofnaf fod y cyfeiriadau wedi eu codi allan o'u cyd - destun. Ffoniodd gohebydd y Dinesydd ysgrifennydd diwyd y Tabernacl, Mr Eurig Evans, a bachu ar rai o'r sylwadau personol a wnaed. Gŵyr pawb sydd yn adnabod Eurig ei fod yn berson hynaws a rhesymol, yn un sydd yn nodweddu croeso y Tabernacl i bob ymwelydd. Fel y bu i'r Iesu groesawu pawb i'w wledd, y mae'r Tabernacl, fel pob eglwys arall yn awyddus i gymell pobl i dderbyn Iesu'n Arglwydd, plygu wrth ei draed, a chyd-addoli gyda ni. Er bod gan bawb ohonom ragfarnau, y mae'r eglwys sydd yn cyhoeddi gras yn naturiol yn ceisio gweithredu yn rasol hefyd.

Cydymdeimlwn gyda'r sawl sydd yn gyfrifol am ariannu a golygu'r Dinesydd. Bu'n frwydr anodd dros y blynyddoedd ac fe gydnabyddwn yn barod iawn lafur y gweithlu. Dymunwn yn dda i'r criw newydd, ac mi fydd y Tabernacl yn awyddus i barhau i ddosbarthu'r rhifynnau o fis i fis.

Denzil I.John

Gweinidog y Tabernacl.

Annwyl Shân,

Amgaeaf rodd tuag at y "Dinesydd". Fel un o frodorion y ddinas, rwyf bob amser yn falch o'r cyfle i ddarllen am ddigwyddiadau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd. Daliwch ati gyda'r gwaith a phob llwyddiant i'r "Dinesydd" yn y dyfodol

Dymuniadau gorau.

Anne C. Uruska (Pant-Teg, Llanddeiniol, Dyfed)

Diolch yn Fawr Anne - y golygydd.

**Huw Roberts** BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol*

Y Rhodfa, 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
Ffôn Llantrisant 224182

## EISTEDDFOD SIR YR URDD DE MORGANNWG

Fe'i cynhaliwyd ar Ddydd Sadwrn y 27 o Fawrth yn Ysgol Gyfun Bechgyn y Barri a bu'n llwyddiant ysgubol. Bu dros fil o gefnogwyr a phlant yn yr Eisteddfod yn ystod y dydd a bu cystadlu brwd a'r safon yn uchel. Sicrhawyd gwasanaeth Ann Bumford, Delyth Medi, Emyr Roberts, Rhiannon Rees, Hannah Roberts, Heulwen Jones, Meinir Lloyd a Carol Thomas fel beirniaid. Hoffai Huw Davies, Swyddog Datblygu'r Urdd yn Ne Morgannwg, ddiolch yn gynnes i bawb am eu cefnogaeth ac mae am ddymuno'n dda i bawb fydd yn mynd i gynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngorseinon dros y Sulgwyn.

## RYAN GIGGS Y SEREN NEWYDD O GAERDYDD!

Mawr oedd y cyffro a'r disgwyl am ganlyniad ffafriol yn y gêm bêl - droed ryng wladol rhwng Cymru a Gwlad Belg ym Mharc yr Arfau Caerdydd ar nos Fercher 31 o Fawrth pan ddaeth 27,002 ô bobl ynghyd i weld Cymru yn curo Gwlad Belg o ddwy gôl i ddim. Sgoriwyd y gôl gyntaf gan Ryan Giggs y seren newydd yn nhîm Cymru ond sy'n chwarae i Manchester United o wythnos i wythnos. Yntau wedi byw ym Meyrick Close Trelai ac wedi mynychu Ysgol Gynradd Herbert Thomson nes ei fod yn wyth oed pan symudodd y teulu i fyw ym Manceinion. Mae Shaking Stevens y canwr pop yntau o Drelai a Steve Robinson. Felly mae Trelai ar y map ac yn amlwg yn lle da am fagu sêr mewn gwahanol feysydd!

## Gŵyl Gorawl Gymraeg Esgobaeth Llandaf

Fe'i cynhelir eleni yn Eglwys Dewi Sant, St Andrews Crescent Caerdydd ar nos Lun y 24 o Fai am 7.15p.m. Y llynedd cynhaliwyd gŵyl lwyddiannus yn Eglwys Santes Agnes, Port Talbot a gobeithir cael yr un gefnogaeth eleni wrth gynnig croeso cynnes i bawb.

## SWYDDFA'R EISTEDDFOD LLANISIEN

Ym mis Mawrth penodwyd Eira Jones yn ysgrifenyddes i'r Swyddog Technegol a'r Swyddog Marchnata a Chyhoeddusrwydd. Bu yn gweithio i gwmni NERIS Llanisien cyn hynny ac mae hi'n byw yn y ddinas ers pum mlynedd. Daw o Fae Colwyn a bu'n fyfyrwraig yn y Normal, Bangor a Chartrefle Wrecsam cyn dod i Gaerdydd.

## Cywiriad lleoliad ymarferion Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd

Yn rhifyn mis Ebrill soniwyd eu bod yn ymarfer bob Sadwrn am 11.00 a.m. ar Feysydd Ysgol Glantaf Uchaf ond ymddengys mai ar Feysydd Ysgol Glantaf Isa y cynhelir yr ymarferiadau a hynny yn y Tyllgoed Felly, chi chwaraewyr neu ddarpar chwaraewyr, nodwch ble i fynd!

## Cynhadledd Flynyddol RHAG ym Mhont - y - Pŵl.

**Fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn yr 22 o Fai rhwng 10.00 a.m. - 4.00 p.m. yn Ysgol Gyfun Gymraeg Gwynllyw, Trefethin, Pont-y-pŵl. Bydd bwffe amser cinio ac mae croeso cynnes i bawb i'r Gynhadledd hon.**

# Llwyddiant i Gwmni "Hysteria"

Sara Evans



Yng nghanol hwrli bwrli beunyddiol Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yng Nghardydd, fe ymunodd pymtheg o ddisgyblion mentrus y chweched Isaf â'r ymgyrch "Menter i'r Ifanc" o dan lywyddiaeth bwrdd yr "Young Enterprise Award Scheme" yn mis Medi 1992. Fe ffurfiwyd y cwmni "HYSTERIA" drwy yn gyntaf sefydlu syniad o greu llyfr addysgiadol i blant oedran 5 - 7 mlwydd oed, yn dilyn hynt a helynt cymeriad o'r enw "Dyfrig y Ddraig", a'r hanesion syn cael eu casglu wrth iddo ynweld â deuddeg gwlad y Gymuned Europeaidd. Comisiynwyd Eluned Myhre, arlunydd dawnus o'r chweched, i ddylunio 13 o luniau i gael eu cynnys yn y llyfr. Ond, fe aeth y cwmni o nerth i nerth wrth ddargarfod bwlch gwell yn y farchnad - pecyn addysgiadol, ar yr un thema â'r llyfr. Erbyn hyn, ac o dan arweiniad Miss Janet Jones o'r cwmni busnes CAVE (Cardiff & Vale Enterprise), Mr Martin Kitchener o Ysgol Fusnes Caerdydd a Dr Pat Evans, trefnydd lleol Y.E., mae'r cwmni yr ffyddiog y bydd y cynnyrch yn llwyddiant. Eisioes, fe enillodd y cwmni y brif wobr am Y Syniad Mwyaf Gwreiddiol yn Ffair Fasnach "Menter i'r ifanc". Mae dyled y cwmni yn fawr i athro busnes yr ysgol, Mr Gareth Williams. ac yntau'n mentro am y tro cyntaf i'r gystadleuaeth anrhydeddus yma. Gyda'r bluen uchod yn eu cap, mae'r cwmni yn gobeithio am lwyddiant unwaith eto yng Nghynhadledd Blynyddol Athrawon Cymru ar faes Llanelwedd ar Ebrill 26 ain / 27 ain.

---


CÔR Y BYD

PARC YR ARFAU

CAERDYDD

SADWRN Y SULGWYN

29 MAI 1993

DROS 8,000 O LEISIAU

GYDA

SHIRLEY BASSEY

WYNFORD EVANS

PAATA BURCHALADZE

OWAIN ARWEL HUGHES (ARWEINYDD)

TOCYNNAU : £25, £20 A £15
FFONIWCH (0222) 691999


## Eleni ni fydd Côr y Byd yn cael ei ddarlledu'n fyw o Barc Yr Arfau - felly 'does dim amdani ond sicrhau tocynnau.

Peth mawr ydy gallu dweud "Roeddwn i yno" pan mae rhyw ddigwyddiad o bwys yn cymry lle. A felly 'roedd hi y llynedd i lawer pan gynhaliwyd Côr Y Byd am y tro cyntaf ym Marc Yr Arfau ddiwedd mis Mai. Ond yr adeg honno cafodd llawer ohonom a fethodd fynd, rannu yn y wefr oherwydd i'r cyngerdd dros 8,000 o leisian gael ei deledu yn fyw er gwaethaf y glaw a'r tarannau dychrynllyd.

Ni fydd y cyfle hwnnw ddim ar gael eleni gan na ddangosir yr achlysur ar y teledu hyd yr hydref. Felly, os am noson wych o ganu bendigedig dan garedicach nen bydd yr rhaid bod yno y tro hwn.

Bydd Shirley Bassey yn ymuno â chor o dros 8000 o leisiau gyda'r baswr o Rwsia, Paata Burchuladze, y tenor Wynford Evans a Cherddorfa y Royal Philharmonic, ac yn rhoi eu gwasanaeth i godi arian tuag at achos da ymchwil Cancer, gyda Owain Arwel Hughes wrth y llyw, wrth gwrs.

Yn ôl y trefnwyr mae'r tocynnau yn gwerthu'n dda, Meddai David Wyndham Lewis, "Rydyn wedi gwerthu oddeutu 10,000 yn fwy o docynnau nag a wnaethom yr un adeg y llynedd ac mae hyn yn argoeli'r dda. Ond mae lllawer o gefnogwyr yn tueddu i brynu tocynnau ar y funud ola ac oherwydd nad ydy'r cyngerdd yn cael ei deledu'n fyw y tro hwn, byddwn yn cynghori pawb i sicrhau eu tocynnau cyn gynted ag sydd modd er mwyn sicrhau seddi da".

**Gellir eu cael o Swyddfa Côr Y Byd, 20 Pantbach Road, Birchgrove. Ffon 0222 691999**

# Darganfod Cymru Discovering Wales

Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno â hwy ar gyfres o arweindeithiau, gan gynnwys:

**CWMFELIN-FACH, GWENT**

Nos Fercher, 19 Mai

Cyfarfod am 7 p.m. ym Maes Parcio Pont Lawrence Rees, Cwmfelin-fach, Dilynwch yr arwyddion am Barc Gwledig Dyffryn Sirhywi (mynedfa Cwmfelin-fach).

Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 189 913

Hanes, hanes naturiol a daeareg yr ardal.

**CRAIG CERRIG-GLEISIAD, BANNAU BRYCHEINIOG, POWYS**

Dydd Sadwrn, 22 Mai

Cyfarfod am 1 p.m. yn yr encilfan ar yr A470 yn y fynedfa i'r Warchodfa Natur.

Cyfeirnod Grid: Dalen 160/SN 973 223

Mae'r cwm ysblennydd hwn yn gartref i lawer o rywogaethau prin. Disgrifir y newidiadau i'r tirlun ers adeg y rhewlifau yn ystod y daith.

**YSTRADMYNACH, MORGANNWG GANOL**

Dydd Sul, 30 Mai

Cyfarfod am 2 p.m yn yr Efail a Melin Ddŵr.

Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 145 929

Taith i ddarganfod hanes adeiladau'r ardal.

**TRYLEG, GWENT**

Nos Fercher, 9 Mehefin

Cyfarfod am 7 p.m. yn y fynedfa i Eglwys Tryleg (Trelech)

Cyfeirnod Grid: Dalen/ 162/SO 500 055

Hanes, hanes naturiol a daeareg yr ardal.

**LANILLTUD FAWR, DE MORGANNWG**

Nos Fercher, 16 Mehefin

Cyfarfod am 7 p.m. ger eglwys y plwyf.

Cyfeirnod Grid: Dalen 170/SS 965 686

Tro o amgylch y dref hanesyddol hon gan edrych yn arbennig ar y bensaerniaeth a'r tirlun.

**CANOL CAERDYDD, DE MORGANNWG**

Nos Fercher, 30 Mehefin

Cyfarfod am 7 p.m. ar brif risiau Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Cyfeirnod Grid: Dalen 171/ST 185 769

Cylchdaith i edrych ar rai o'r planhigion dieithr sydd wedi ymsefydlu yn strydoedd a pharciau canol Caerdydd.

Tâl £1 oedolion, 50p plant /henoed. Bydd pob taith yr dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer yr awyr agored. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau am y teithiau hyn i'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Ffôn (0222) 397951

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU — NATIONAL MUSEUM OF WALES

## *Diwrnod Agored Canolfan Ysgol Gyfun Rhydfelen yng Nghwrt y Cadno Dyfed*



Saif Ysgol Cwm Cothi ar lan Afon Cothi mewn bro hardd sy'n dal yn Gymraeg ei hiaith. Yna y derbyniodd y Parch Cynwil Williams gweinidwg Capel y Crwys ei addysg fore. Ond caeodd yr ysgol yr 1971 ac fe'i prynwyd gan Gymdeithas Rieni Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydfelen fel Canolfan er mwyn i'r disgyblion cael y profiad o fyw yn y wlad a phrofi o gymreictod a hud yr ardal hon. Cafodd ei hagor Fel Canolfan yn Ebrill 1978 ac erbyn hyn mae cannoedd o blant Rhydfelen wedi cael y pleser a'r wefr o aros yno.

Aeth pymtheng mlynedd heibio bellach ac yn ddiweddar bu nifer o rieni wrthi'n adnewyddu a datblygu'r ganolfan. Yn goron ar y gwaith cynhelir Diwrnod Agored yng Nghwrt y Cadno ar Ddydd Sadwrn y 15 o Fai i ail agor y Ganolfan ar ei newydd wedd. Cynhelir teithiau cerdded am unarddeg ac ail ymgynull wedyn am dri am baned cyn dadorchuddio plac i goffau Daniel Farr disgybl a fu farw y llynedd. Yna, am hanner awr wedi pedwar cloir y gweithgareddau gyda Chymanfu Ganu yng Nghapel Cwrt y Cadno dan arweiniad Gwilym E.Humphreys cyn Brifathro Cyntaf Rhydfelen a llywyddir yn y Gymanfa gan D.Bryan James, prifathro presennol yr ysgol. Am Fwy o fanylion cysyllter ag Ysgol Gyfun Rhydfelen (0443 486816)

# YR HAEL A'R TRIW

Mis diwethaf, bu farw Nan Prytherch, ar ôl brwydr hir a dewr. Y mae ein cydymdeimlad yn ddwys a chywir iawn ag Evan ei phriod, Elin, Delyth, Keith a'r ŵyrion Jonathan, Selyf a Iestyn.

Collodd llawer ohonom ffrind a minnau yn eu plith - ffrind na fu erioed un mwy hael na thriw. Pwy ohonom all byth anghofio ei bwrdd llawn, boed yn ginio, te neu swper - ac amhosib oedd gwrthod bwyta - ni chymrai unrhyw sylw, dim ond dal i bentyrru platiau. Bu Nan yn ffrind agos i mi er 1958 pan es i fyw i Aberystwyth ac i dŷ y drws nesa i'r Prytherchs. Yn gwbwl ddibrofiad sut i redeg tŷ, Nan a'm gosododd ar ben ffordd, o goginio i wneud cyrtans, o bolisho i arddio!

Ar ôl symud i Gaerdydd, ni phallodd y cysylltiad, ac yn wir at Nan yr aeth Elin am dros wythnos pan aned Mari, a gwyddwn na allai Elin fod mewn dwylo mwy diogel. Gwyddwn na adawai Nan i'r gwynt chwythu arni. Fel y mae trefn pethau yn amal yn rhyfedd, ymhen ychydig iawn o amser daeth Evan a Nan i ymgartrefu i Gaerdydd ac yn byw nid nepell oddi wrtha'i. Bu cymdeithasu cyson rhwng y ddau deulu ar hyd y blynyddoedd a Nan a'r teulu yn rhannu pob pnawn Dolig â ni. Dyna fy narlun i o haelioni a chynhesrwydd Nan. Rwy'n siwr bod ganddoch chi lawer o'r darllenwyr ddarlun tebyg ohoni. Rhoddai o'i gorau i bawb; i'w theulu, i'w ffrindiau ac i'r holl ddiddordebau a oedd ganddi. Rhoi yn sgîl ei diddordeb yn yr ardd a'r blodau, ac i bob cymdeithas a berthynai iddynt. Ond yn anad dim, roedd hi'n gefn eithriadol i'w theulu pell ac agos. Mae lle gwag iawn ar ei hôl yn Garddfady, ond yr atgofion amdani'n gyfoethog, ac yn mynd i ddal i gynhesu bywyd.

Shan Emlyn

# CYFARWYDDWR M.Y.M. YN YMDDEOL

Gyda gofid y cyhoedda Swyddogion y Mudiad Ysgolion Meithrin ymddeoliad cynnar y Cyfarwyddwr, J.Bryan Jones, am resymau meddygol, ar derfyn 15 mlynedd o wasanaeth cydwybodol ac ymroddgar.

Bu ei arweiniad yn sicr a'i ddelfrydau'n gadarn ac mae'r Mudiad trwy Gymru benbaladr yn drwm yn ei ddyled am ei weledigaeth, ei sirioldeb a'i ymroddiad di - arbed.

Wrth gyflwyno ei benderfyniad i gefnu ar swydd a hawliodd gymaint o'i amser a'i ynni am gyfnod maith, mynegodd Bryan ei ddiolch i'w gydweithwyr cyflogedig a gwirfoddol am eu cefngaeth a'u cyfeillgarwch a dymunodd yn dda i'r Mudiad yn y dyfodol.

"Bydd cyfle i'r Mudiad cyfan dalu teyrnged haeddiannol i Bryan Jones maes o law Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i un a fu'n gyfaill clos i bawb ohonom yn ogystal ag yn Gyfarwyddwr. Bu'n fraint cael cydweithio ag ef", medd y Swyddogion.

EIRWEN MALIN, Cadeirydd.
GWYNETH MORUS JONES, Is-Gadeirydd.
JOHN ARTHUR JONES, Trysorydd.
J. CYRIL HUGHES, Ysgrifennydd Ariannol.



J.Bryan Jones Rhadur, Cyfarwyddwr M.Y.M. o flaen pabell M.Y.M. yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy yn Llanrwst 1989.

## COLLI L.MEIRION LEWIS.

Bu fawr Leslie Meiriom Lewis, Rhiwbeina yn frawychus o sydyn ddydd Sadwrn y 13eg o Fawrth yn 63 oed. Cydymdeimlir â'i weddw Sally ac a'r plant Robert a Siân. Yn ystod y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Dewi Sant Ddydd Gwener y 19 o Fawrth rhoddwyd teyrnged hael iddo gan y Ficer am ei ofal proffesiynol dros adeiladau'r Eglwys ar hyd y blynyddoedd. Bu'n ffyddlon yn y gwasanaethurau ac yn ddoeth ei gyngor fel peiriannydd strwythurau. Collir ei wên ddireidus yng Nghymdeithas Sir Gâr ac ym Mharc yr Arfau. Y tu ôl i'r wen roedd meddwl craff a phersonoliaeth gadarn a roes at wasanaeth Cymdeithas Dai'r Hafod lawn cymaint â'i swydd feunyddiol.

# Datblygiadau newydd yn Amgueddfa Werin Cymru

Y mae Amgueddfa Werin Cymru newydd ddathlu ei blwyddyn mwyaf llwyddiannus erioed. Rhwng Ebrill 1992 a diwedd Mawrth eleni daeth 362,925 o ymwelwyr i'r amgueddfa. Mae hyn yn gynnydd o 22% dros y flwyddyn gynt, a golyga hyn bod nifer ein hymwelwyr wedi cynyddu dros 100,000 mewn dwy flynedd.

Yn awr yr ydym yng nghanol un o'r cyfnodau prysuraf a welwyd erioed yn yr Amgueddfa Werin o safbwynt ail-godi adeiladau, oherwydd yr ydym yn ail-adeiladu pedwar adeilad ar hyn o bryd.

Bydd dau o'r adeiladau newydd yn agor yn ystod yr haf eleni, sef Swyddfa Bost Blaenwaun, a hen fwthyn to gwellt, Nant Wallter. (Ceir erthygl am Nant Wallter yn rhifyn mis Mehefin)

Y.Swyddfa Bost fydd yr adeilad lleiaf i'w symud a'i ail-godi yn yr amgueddfa erioed. Wedi ein adeiladu o frics, mae'n mesur dim ond 5 medr o hyd a 3 ar draws, (16eg troedfedd gan 9 treedfedd), ac mae hyn yn cynnwys dwy 'stafell, sef yr ystafell gownter, a swyddfa fechan.

Adeiladwyd y swyddfa bost fechan hon ym 1936 i wasanaethu ardal Blaenwaun, ger Crymych yng ngogledd Penfro. Evan Isaac, saer-maen lleol a'i gefnder, David Williams, saer coed a'i hadeiladodd a merch Isaac, Hannah Beatrice Griffiths a'i gŵr Thomas George Griffiths fu'n gyfrifol amdani ynghyd a'r Lamb Inn a oedd gyferbyn â hi.

Bu swyddfeydd post o'r fath hyn yn bwysig ym mywyd gwledig Cymru. Daethant yn ganolfannau cymdeithasol i'r holl gymuned ac mae hon yn

nodweddiadol o gannoedd a welir (neu o leiaf a welwyd ) ledled cefn gwlad Cymru ers talwm. O'r Hendy Gwyn ar Daf y daeth y post i Flaenwaun, ei ddidoli gan Mrs Griffiths a'i ddosbarthu ganddi i ffermydd a bythynnod yr ardal, siwrne o ryw wyth milltir ar gefn beic a gyflawnai bob bore cyn dechrau ar ei gwaith yn y dafarn.



Daeth lle'r swyddfa bost fel canolfan gyfathrebu yn bwysicach fyth yn ytod cyfnodau o argyfwng cenedlaethol megis yr Ail Ryfel Bud, y cyfnod a ail-greir yma.

Pan fu farw Mr Griffiths ym 1963 trosglwyddwyd y busnes i fyngalo lleol a adeiladwyd gan ei ferch Mrs Evanna Jones. Hi a gyflwynodd yr adeilad gwreiddiol i Amgueddfa Werin Cymru ym 1991.

Rhoddwyd blwch telefffon gan Britsh Telecom Cyf., Abertawe i'w osod ar bwys y swyddfa bost, a chyflwynwyd blwch llythyrau, a ddug y llythrennau GR am Sior V, gan y Post Brenhinol, Caerdydd.

Noddwyd ail-adeiladu Swyddfa Bost Blaenwayn gan Gownteri Swyddfa'r Post. Cyf.

Agorir Swyddfa Bost Blaenwaun yn swyddogol ar ddydd Mercher 26 Mai.

Bydd amlen post arbennig ar werth i ddathlu'r achlysur.


## ADRAN Y GYMRAEG

## PRIFYSGOL CYMRU CAERDYDD

### TIWTOR IAITH

### (RHAN AMSER)

Mae ar Adran y Gymraeg angen tiwtor iaith rhan - amser i gynorthwyo gyda gwaith gloywi iaith. Oriau hyblyg a thâl yn ôl telerau arferol y Coleg. Anfoner CV yn nodi profiad a chymwysterau at bennaeth yr adran i'r cyfeiriad isod. Dyddiad cau: Mehefin 25, 1993

Adran y Gymraeg, Blwch SP 910, Adeilad y Dyniaethau, Colum Drive, Caerdydd CF1 3XW.


# Fy hen, hen nain

Mae hud hen Sir Drefaldwyn
Yn llifo'n goch fel gwin;
Y flwyddyn fwya ffrwythlon
Oedd mil saith chwe deg un.

Ym Maldwyn ger Llandinam
Y ganwyd fy hen, hen nain;
Bu Marged fach a'i theulu
Yn byw mewn tyddyn plaen.

Yn ystod ei genethdod
Fe helpai gyda'r gwaith;
Ac er na allai ddarllen,
Siaradai yr hen iaith.

Priododd Edward Dafis -
Roedd ffarmio yn ei waed,
Ac yn eu tŷ ym Mochdre
Y ganwyd fy hen daid.

Ar ol cael bywyd caled,
A hithau ddim mor hen,
Brwydro ymlaen fel gweddw
Wnaeth Marged gyda gwen.

I Ben - y - Garn, Penstrawed
I dŷ ei mab yr aeth,
A thrigai yno'n hapus,
Mi wn, am amser maith.

Ac yno bu hi farw,
Tros gan mlwydd oedd ei hoed.
Mae'n gorwedd yn Llandinam
Mewn bedd o dan y coed.

Rwy'n dal i hela f'achau,
Rhaid ini fynd ymlaen:
Ond 'does neb yn fwy diddorol
Na f'annwyl hen, hen nain.

Arthur Vaughan, Y Bontfaen

(Buddugol ar gystadleuaeth cerdd agored yn Eisteddfod y dysgwyr Morgannwg a Gwent)

## CYDYMDEIMLO

*A'r Parchedig Morgan Mainwaring Port Talbot cyn weinidog Capel Pembroke Terrace Caerdydd ar golli ei wraig Elizabeth Hannah (Bethan) ar y 10fed o Ebrill.*

# Yoga gyda Valmai Evans

Mae rhyw ddng mlynedd wedi mynd heibio oddi ar i Gyngor De Morgannwg roi cefnogaeth i'r fenter o gynnal dosbarthiadau oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg a lleoli rhain yn Ysgol Gyfun Glantaf. Sefydlwyd rhain o dan adain Ann Evans, Pennaeth Canolfan Addysg Oedolion yn Rhadur ac fe gynigiwyd amryw o destunau i'w hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gobaith oedd rhoi cyfle i ddysgwyr gael ehangu eu geirfa yn ogystal â rhoi cyfle i Gymry Cymraeg y ddinas fynychu dosbarthiadau yn y Gymraeg. Os cofiaf yn iawn rhai o'r pynciau oedd Teipio, Cymraeg (iaith), Cymraeg (llenyddiaeth), Ymarfer Corff, Coginio, Gwerthfawrogi Cerddoriaeth, Garddio, Ffrangeg, Edrych ar ôl y car, Crochenwaith, a YOGA. Sefydlwyd rhyw bum dosbarth ond i lawr ac i lawr yr aeth pethau a diffyg cefnogaeth i'r fenter. Yr unig ddosbarth sydd wedi parhau ac yn wir yn llewyrchus dros ben yw'r dosbarth Yoga. Ar hyd y blynyddoedd mae newid wedi bod yn y 'disgyblion' - rhai wedi mynychu'r dosbarth yn y cyfnod pan oeddent yn feichiog er mwyn dysgu ymlacio a gwneud y safiadau sydd yn helpu gyda genedigaeth, a dod nôl eilwaith pan oedd plentyn arall ar y ffordd! Mae yna nifer o ddysgwyr wedi bod yn y dosbarth ac yn wir yn parhau i ddod a mae yna rhai 'hen stagers' sydd wedi bod yn y dosbarth oddi ar y cychwyn! Mae yna un dyn yn mynychu'r dosbarth - mae John yn dod er mwyn ymlacio ar ôl wythnos brysur yn darlithio i ddosbarth mawr o fyfyrwyr a marcio eu gwaith nhw. Roedd, yna ddau ond fe aeth un allan i wlad bell Patagonia ond mae e wrthi bob dydd yn y wlad honno os gallwch gredu beth i chi'n gweld ar y haglenni teledu! Brysia nôl yn 1994 Gwilym er mwyn i ti ddechrau dosbarth Yoga arall yn y Gymraeg yng Nghaerdydd - hwn yn ychwanegol at dy waith fel golygydd y Dinesydd!

Pleser mawr i mi yw cyfarfod 'ffrindiau' bob nos Lun yn Glantaf a'u harwain drwy'r safiadau, yr ymarferion anadlu, gwaredu tensiwn, ffyrdd o ymlacio a thawelu meddwl a threio dylanwadu arnynt y dylai pawb allu fforddio peth amser o bob dydd i ymdawelu, gwneud rhai o'r safiadau a'r ffyrdd anadlu sydd angen arnynt y diwrnod hwnnw, a thrwy athroniaeth Yoga a'r ochrymarferol hyn ddod i adnabod eu hunain yn well, yn gorfforol ac yn feddyliol. Efallai dyma lle rwy'n teimlo fy mod ym methu fel athrawes er bod yna arwyddion pendant fod pethe'n gwella!

Rydyn ni'n cael seibiant nawr dros yr haf ond byddw wrthi eto ym Medi â Ffrindiau hen a newydd yn llanw'r ystafell (sydd erbyn hyn yn llawer rhy fach) a minnau wrth fy modd.

## PLÂT I GOFIO SAUNDERS LEWIS

Mae 1993 yn flwyddyn dathlu canmlwyddiant geni J.Saunders Lewis ac mae Pwyllgor Sirol Ceredigion o Apêl Cronfa Goffa Saunders Lewis yn nodi'r achlysur mewn modd arbennig. Cynhyrchir argraffiad cyfyngedig o 300 plât porsolên wedi eu rhifo ac wedi eu cynllunio'n chwaethus gan Peter Lord yr artist adnabyddus o Gapel Bangor ger Aberystwyth. Cost plat ydy £30.00. Os ydych chi am archebu plât neu am gael mwy o fanylion yna ffoniwch Cen Llwyd 054 555 295 neu Euros Lewis 0570 470 697.

## COLLI JAMES ROBERTS

Bu farw tad Tegwen Evans Llysfaen yn dawel yn ei gartre, Gwynant Y Frongoch ger y Bala ar ddechrau Ebrill. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Crist y Bala cyn ei roi i orffwys ym mynwent Eglwys St.Beuno Llanycil. Cydymdeimlir a'i weddw Margaretta a'r teulu oll yn eu colled fawr. Bu Mr a Mrs Roberts yn byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd cyn dychwelyd i fyw yn y Bala.

# A DIM OND Y GWIR.

TALU'R PWYTH

Elinor Patchell

Ym 1990, fe adawadd Siôn ei wraig, Siân, a mynd i fyw gyda menyw arall. Fe aeth Siân i weld cyfreithiwr ac fe gafodd gymarth cyfreithiol ar gyfer ysgariad.

Gan ei bod yn gweithio rhan amser ac yn ennill ond £7000 pa, ni fu rhaid iddi gyfrannu at ei chostau.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd yr ysgariad wedi ei gwblhau a'r materion ariannol wedi eu setlo. E bod bil Siân dros £2000, ni chostirodd hyn geiniog i'r wladwriaeth, gan i Siân ail forgeisio'r tŷ a thalu'r cwbwl yn ôl i'r Bwrdd Cymorth Cyfreithiol, (Os ydych yn ennill eiddo neu arian drwy gymorth cymorth cyfreithiol, mae disgwyl i chi dalu o'ch enillion)

Ond pe bai Siôn yn gadael Siân heddiw, ni fedrai fforddio ymladd yr achos, achos nawr byddai disgwyl iddi dalu tua £50 y mis tuag at ei chostau cyfreithiol.

Mae tri phrif gategori o Gymorth cyfreithiol. Cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer achosion o ddoluriau personol neu ddadleuon ariannol yn codi o ysgariadau. O'r mis yma ymlaen [Ebrill 93] ni chewch gymorth am ddim oni bo eich cyflog rhydd (disposable income) yn llai na £2294 p.a. Cynt roedd yn £3060 p.a. Os yw'ch incwm yn fwy na £2294 ond yn llai na £6800, fe gewch gymorth ond bydd rhaid ichi gyfrannu hyd at draean o'ch incwm rhydd tuag at eich costau trwy gydol yr achos.

Mae'r newidiadau yn effeithio cyngor a chymorth cyfreithiol elfennol yr hyn a elwir "green form" sy'n caniatau i gyfreithwyr rhoi cyngor ar ystod eang o bynciau ac sy'n amhrisiadwy pan na fo cymorth cyfreithiol llawn ar gael e.e. ar gyfer tribiwnlysoedd diwydiannol. Dyma'r cymorth sy ar gael mewn ysgariadau di - ornest.

Yn y gorffennol, roedd cyngor dan y cynllun hwn yn rhad ac am ddim i bobl ag incwm rhydd o lai na £75 yr wythnos. Nawr ni chewch gyngor am ddim oni bo eich cyflog yn llai na £60 yr wythnos.

Bydd y newidiadau yn effeithio cymorth cyfreithiol troseddol hefyd, gyda'r rhai hynny y dywedir eu bod yn medru ei fforddio, yn talu mwy tuag at gost eu hamddiffyniad

Pan gychwynodd Cynllun Cymorth Cyfreithiol nôl yn 1950 roedd tua 80% o'r boblogaeth yn medru manteisio arno. Erbyn dechrau eleni, roedd y ffigwr wedi syrthio i 48% ac ar ôl i'r newidiadau yma ddod i rym, bydd y ffigwr yn is eto. Yr ofn yw y bydd mwy a mwy o bobl yn rhy dlawd i fynd i gyfraith dros eu hawliau, ond yn rhy gyfoethog i gael cymorth gan y wladwriaeth. Bod cyfiawnder fel y Ritz, ar agor i'r rhai all ei fforddio.

## DRAMA'R PASG YNG NGHAPEL Y CRWYS.


Ar ddydd Sul y 4ydd o Ebrill yng Nghapel y Crwys cafwyd dau berfformiad o ddrama'r Groglith "Y Neb o Ddyn" gan y diweddar Hugh Pierce Jones Pwllheli. Roedd y capel yn llawn ar gyfer y perfformiadau a chyflwynwyd y neges yn rymus gan tua deg ar hugain o ieuenctid ac aelodau hŷn y Capel. Cynhyrchwyd y ddrama gan George P.Owen.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

Daeth dros 50 o bobl ynghyd ar nos Iau y 29 o Ebrill i wrando ar sgwrs hynod o ffraeth a difyr gan Islwyn Jones Gwenfo am "Bobl Godre'r Mynydd Du".

Cynhelir cyfarfod nesa'r Gymdeithas ar nos Iau yr 20fed o Fai am wyth o'r gloch yn y llyfrgell pan geir noson gan yr aelodau ar ffurf "Pawb a'i Drysor".

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 129



**AR DRAWS**


1. Darfelydd pob artist creadigol. (7)
5. Yr awen yn llunio cludydd buan. (6)
9. Un o ddoniau Rhagluniaeth a rennir yn bur anghyfartal? (7)
10. Mae'n bosib fod y beirdd ag awydd troi yn rhyfygus. (7)
11. Cyfnod o rew caled. (3)
12. Saerniais rywbeth gwreiddiol; cafodd y sain S ei wneud ohono. (11)
13. Y math o fwthyn a godwyd mewn brys i gael hawl ar ran o'r comin. (5)
14. Cael bri mewn tôn o ganig cymhleth. (9)
16. Ar dôn felly, gall pob llais ei morio hi, yn yr ŵyl. (9)
17. "Yn y ---- isel, gwael". (Carol, cyfieithiad o Mrs C.F.Alexander) (5)
19. Daeth Berian i roi'r dyfarniad, ond ffwndrodd wrth wneud hynny. (11)
22. Un o'r drydedd genhedlaeth. (3)
23. Mi a gymeraf hwyrbyd. (7)
24. Ymgyflwynedig i'r gwaith; ysodd y mur i'w drefnu. (7)
26. Anferth o faenwr! (6)
27. "------ a roddwyd i'm gofal. (S.L. yn "Buchedd Garmon") (7)

**I LAWR**

1. Paradwys haul ac awel Môr y De sy'n gallu difrifoli dyn. (7)
2. Cael hwyl amdanoch. (7, 2, 3, 3,)
3. Awch ymyl gwefus. (3)
4. Amlygodd ef ei barodrwydd i ymddwyn gydag amynedd. (5)
5. Fel gwybodaeth a gallu'r meddyg ymgynghorol. (9)
6. Daliodd y boen yn ei ystlys i godi, gan ddangos ei fod wedi gwanychu yn fawr. (5)
7. Rhan o eiriau y Mab Afradlon wrth gymharu ei gyflwr ei hun â chyflwr gweision ei dad. (Yn ôl yr hen gyfieithiad) (2, 5, 1'1, 6)
8. Er dy fwyn. (6)
12. Caws cyfan. (5)
14. Y pared sy'n rhannu'r tŷ. (9)
15. Perchen y winllan yr oedd Ahab yn ei chwennych. (5)
16. Y rhaff sy'n achosi rheg. (6)
18. Ymrafael ymhlith y beirdd? (7)
20. Un pen o Lanarthne yn cael ei ail - godi fel ei fod yn cryfhau. (5)
21. Hyfforddiant yr athro. (5)
25. "Ac ni chyfyd ton o'r môr Heb --- mawl i enw'r Iôr." (Emyn) (3)

**Cystadleuaeth Rhif 129**

**Tocyn Llyfr £5 fel arfer. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd. erbyn Mai 17eg, os gwelwch yn dda.**



## CYSTADLEUAETH RHIF 128

*Daeth un-deg-naw i law. Pob ymgais yn gymeradwy, ond nam bach mewn chwech ohonynt. Yr enw a dynnwyd ar hap o'r pentwr oedd Gethin Jones, 3,Heol Dewi, Pen-yr-aber, Abergwaun, ac fe fydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddo yn fuan. Daeth y dwsin o atebion cywir arall oddiwrth:- Sylvia Evans, Caerdydd; Marged Davies, Llandaf: D.Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; Gwenda Hopkins, Llanisien; Meira Shakespear, Basaleg; Myfi Cosslett, Y Mynydd Bychan, Hywel Jones, Y Mynydd Bychan; John Breese, Glanyrafon; Rhodri Jones, Penarth; Huana Simpson, Y Bontfaen; Buddug Roberts, Yr Eglwysnewydd a Dilys Gunston, Cyncoed.*

# SÊR Y DINESYDDD - MAI 1993

## GAN EIRY PALFREY



ARIES

Mae'r sêr yn gwenu arnoch chi ar hyn o bryd, a mae pethau'n gweithio allan yn ffafriol iawn yn eich bywyd, yn enwedig yn ariannol. Mae sawl swm annisgwyl o arian ar ei ffordd i chi, gwariwch yn ddoeth - fydd hi ddim fel hyn am byth.

TAURUS

Wel dyma chi ar drothwy un o gyfnodau mwyaf cyfforus y flwyddyn i chi, gwnewch yn fawr ohono i gyflawni rhai o'ch hoff obeithion. Nid dyma'r amser i bwyso nôl i aros i rywbeth ddigwydd, neu fe fydd bywyd yn eich gadael ar ôl.

GEMINI

Mae hwn yn gyfnod da i gyfathrebu - a rych chi wrth eich bodd yn gwneud hynny - sgwennwch, ffoniwch, siaradwch, ond dim gormod chwaith, rhag ofn i chi flino pobl. Ceisiwch wneud tipyn o les i'ch hunan wrth gyfathrebu - ond gwyliwch y bil ffon.

CANCER

Mae hwn yn gyfnod da i setlo unrhyw faterion cyfreithiol sy wedi bod yn eich poeni, neu i ddelio gydag awdurdodau o bob math. Os ydych chi ar fin cymryd arholiad ac wedi gwneud y gwaith caled, ymlaciwch - fe ddylech ddisgleirio nawr.

LEO

Mae'r sefyllfa ariannol ar fin gwella yn eich bywyd, on dyw hynny ddim yn arwydd i chi fynd yn ddwl a gwario'n wyllt - rhowch beth ohono yn y cadw mi gei ar gyfer diwrnod glawog. Mae perthynas agos ar fin eich synnu.

VIRGO

Falle bydd blerwch rhywun arall yn blino'ch natur daclus - a ydych chi'n mynd braidd yn rhy ffyslyd ac eithafol falle? Ceisiwch gyfaddawdu ychydig. Cymrwch ofal o'ch iechyd y mis hwn, rydych chi braidd yn ddelicet ar hyn o bryd.

LIBRA

Falle byddwch chi'n synhwyro fod pobl a phethau yn eich erbyn chi ar hyn o bryd - yn enwedig pethau, peiriannau'n torri lawr ac yn y blaen. Nawr yw'r amser i chi feddwl am fynd am wylie - fe fydd hoe fach yn yr haul yn gwneud byd o les i chi.

SCORPIO

Mae pethau'n edrych yn ffafriol iawn i chi ar hyn o bryd, er falle byddwch chi'n teimlo braidd yn swrth a blinedig - thal hi ddim i weithio bob eiliad o'r dydd - gorffwyswch ychydig mwy a chymrwch ofal o'ch iechyd.

SAGITTARIUS

Mae'r sefyllfa'n edrych yn ddiddorol iawn yn rhamantus i chi ar hyn o bryd, ond yn ara deg mae pethau'n symud felly mae gofyn i chi fod yn amyneddgar - a 'dyw hynny byth yn hawdd i chi. Arhoswch am eich cyfle a fe gewch chi'ch gwobr.

CAPRICORN

Mae pethau'n bositif iawn yn eich byd chi ar hyn o bryd - yn y cartre ac yn y gwaith. Mae rhyw brosiect y bu raid i chi ei ohirio beth amser yn ôl am resymau ymarferol yn dod i'r amlwg eto, a'r tro hwn fe ddylech fod yn llwyddiannus.

AQUARIUS

Mae taith bleserus o'ch blaen chi, a dathliad teuluol o ryw fath. Mae'n ymddangos eich bod yn mynd i fwynhau bywyd am dro ar ôl cyfnod eitha anodd ers dechrau'r flwyddyn. Mae eich lwc ar fin troi yn ffafriol o'r diwedd.

PISCES

Mae'r sefyllfa ariannol yn eich bywyd yn debygol o wella'n sylweddol tua chanol y mis, mae tipyn o lwc o'ch cwmpas a rhamant hefyd. Fe ddylech gael newyddion hapus am aelod agos o'r teulu, priodas, neu enedigaeth falle?

# LIMERIG I GLWB IFOR BACH

Fel rhan o ddathliadau Clwb Ifor Bach yn ddeg oed ar ddechrau mis Gorffennaf, mae'r pwyllgor wedi gosod cystadleuaeth gorffen limerig gan gynnig potel o siampaen i'r enillydd. Anfonwch eich cynigion i'r Clwb erbyn canol Mehefin. Dyma'r llinell gyntaf:-

"MAE IFOR YN DATHLU ELENI"

# Gŵyl Ifan 25 - 27 o Fehefin

Fe'i cynhelir eleni dros y penwythos 25 -27 o Fehefin a defnyddir Gwesty'r Parc fel canolfan i lawer o'r gweithgareddau. Bydd Twmpath Dawns yno ar y nos Wener ac mae croeso i bawb. Ceir gorymdaith fawr drwy'r ddinas fore Sadwrn am un ar ddeg o'r gloch cyn ymrannu i ddawnsio mewn ardaloedd yn y ddinas ac yn y Fro. Yn y pnawn codir Pawl Haf yn Sain Ffagan a chyd-ddawsio o'i chwmpas. Wedyn, eir i Gastell Caerdydd i gyd - ddawnsio i ddiweddu'r' pnawn. Yna, gyda'r nos cynhelir gwledd yn Neuadd y Ddinas gyda phawb yn cyd - ddawnsio yn y Taplas fydd yn dilyn. Fore Sul Cynhelir gweithdy o ddawnsio gwerin Llydaweg, Gwyddelig a Chymreig. Am fwy o fanylion, tocynnu ac ati cysyllter â Dai James, 50 Prospect Drive, Llandaf (563989).

# CORNEL Y PLANT



Cwis i blant yr ysgolion cynradd. GWOBR £2

Yr atebion i ddod i law erbyn canol Mis Mai, a'u hanfon at y Golygydd, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd CF4 6EF. Rhowch eich enw cyfeiriad oed a'ch ysgol hefo'r atebion os gwelwch yn dda.

1. Beth ydy'r arwyddair ar grys pêl - droed tîm Cymru?
2. Beth ydy enw cyntaf y cymeriad Mrs Mac yn "Pobol y Cwm"?
3. Beth ydy enw maes pêl - droed tîm Wrecsam?
4. Dros ba dîm rygbi mae Ieuan Evans yn chwarae o wythnos i wythnos?
5. Beth ydy enw iawn yr actores sy'n portreadu'r cymeriad Megan yn "Pobol y Cwm"?
6. Pa gêm mae'r actores Delyth Morgan yn hoffi chwarae?
7. Pwy enillodd y gystadleuaeth "Cân i Gymru" eleni?
8. Beth oedd y sgôr yn y gêm rygbi rhwng Cymru a Lloegr eleni?

pdag

Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg

*Mae PDAG yn bodoli er hyrwyddo addysg Gymraeg yn ei holl agweddau, drwy:*

*gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, yr awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol ar bolisïau yn ymwneud ag addysg Gymraeg*

*gydlynu gwaith yr holl asiantau sy'n cyfrannu at addysg Gymraeg*

*adnabod anghenion a phennu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau ac ymchwil*

*ddosbarthu gwybodaeth*

**Cysylltwch â ni am wybodaeth a chyngor**
**5 Cwrt y Parc, Parc Tŷ Glas,**
**Llanisien, Caerdydd CF4 5GH**
**Ffôn 0222 766877 Ffacs 0222 764466**

pdag

Cynlluniwyd ac argraffwyd gan Colin Watkins, 99, Maes y Coed Rd, Mynydd Bychan, Caerdydd. CF4 4HE. Ffôn 624555 / 3 Heol y Deri, Rhiwbeina. Caerdydd. CF4 6HA. Ffôn 614170.